

Cynllun Efe

Un o Gant ac Un o Fil

Fe gofiwch i ni wneud yr Apêl hon am gymorth i Gynllun Efe yr adeg yma'r llynedd.

I ddechrau, diolch i bawb a gyfrannodd y llynedd. Mae rhai ohonoch wedi trefnu i wneud eich cyfraniadau trwy'r banc yn fisol neu'n flynyddol, ac yn amlwg yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol.

Byddwn yn ddiolchgar os gall y rhai ohonoch a gefnogodd Apêl Un o Fil neu Un o Gant y llynedd wneud yr un peth eto. I'ch atgoffa, felly, yr ydym yn gofyn i bobl gyfrannu £20 y flwyddyn fel rhan o gynllun 'UNO FIL' neu £100 y flwyddyn at gynllun 'UN O GANT'.

Os cawn ni gefnogaeth dda yn eglwysi'r ardal i'r apel hon bydd modd i ni barhau i gynnal swydd ein gweithiwr ieuencid ymhellach na'r flwyddyn bresennol a ddaw i ben ddiwedd Medi eleni.

Mae ffurflenni i'w cael yn y capeli, a gallwch roi eich cyfraniad i'r Gweinidog

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 20 (Sul y Pasg)

Cyfarfod Pregethu Cefnywaun

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Ebrill 27

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Mai 4

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

os gwelwch yn dda. Bydd yr Apêl hon yn cael ei gwneud dros y mis nesaf.

Gobeithio'n fawr y cawn eich cefnogaeth eto. Roedd yr ymateb y llynedd yn hael ac yn galondid mawr i ni sy'n arwain gwaith Cynllun Efe.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 27: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ebrill 27: Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir gan y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 27: Ni fydd oedfa.

'Cododd Crist'

Dathlwch y Pasg

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 20 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

- Y Parchg Cath Williams

DIM YSGOL SUL

Ebrill 27

10.30 a.m. - OEDFA DEULU


5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 4

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

- Y Parchg Dafydd Ll Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 588 – Sul y Pasg, 20 Ebrill 2014

Rhyddhad oddi wrth euogrwydd

Hynt yr awyren o Malaysia oedd yr un stori fawr o gyfandir Asia a hawliodd ein sylw ers iddi hi a'r 239 o bobl oedd ynddi ddiplannu saith wythnos i ddod. Ond ers dydd Mercher ychydig o sylw a roddwyd i'r chwilio am yr awyren yng Nghefnfor India gan fod y sylw wedi troi at gollir llong fferi, Seowl, oddi ar arfordir De Corea. O fewn dim, roedd y llong wedi suddo gan ladd mae'n debyg 302 o'r 476 o bobl oedd arni. Roedd mwyafrif y teithwyr yn ddisgyblion ac athrawon Ysgol Uwch-radd Danwon, ac ofnir bod dros 250 ohonynt wedi marw.

Un ychwanegiad trist at y drychineb oedd hunanladdiad ymddangosiadol Kang Min-Kyu, dirprwy-bennaeth yr ysgol. Roedd wedi ei achub o'r llong, ond daethpwyd o hyd iddo ddydd Gwener wedi ei grogi. Credir iddo'i ladd ei hun oherwydd teimlad o euogrwydd iddo ef gael ei achub wrth i gannoedd o'i ddisgyblion farw.

Roedd yn Groglith ddydd Gwener pan ddoed o hyd i gorff Kang Min-Kyu. Yng nghanol digwyddiadau'r diwrnod bythgofiadwy hwnnw y croeshoeliwyd Iesu cafwyd hunanladdiad dyn arall a deimlai euogrwydd mawr. Ei grogi ei hun a wnaeth Jwdas Iscariot hefyd, wedi iddo sylweddoli ei fod wedi 'bradychu dyn dieuog' (Mathew 27:4).

Mae'r ddau hunanladdiad yn dangos mor anodd yw byw gydag euogrwydd. Mae hawdd deall euogrwydd Jwdas am fod ei bechod ef yn amlwg. Gwerthodd

y disgybl hwn ei gyfaill a'i arweinydd am ddeg darn arian ar hugain. A phan welodd fod Iesu wedi ei gondemnio, roedd yr euogrwydd yn ormod iddo. Euogrwydd gwahanol a deimlai Kang Min-Kyu, ond mae'n gyffredin i lawer sy'n cael eu harbed mewn damweiniau a digwyddiadau eraill sy'n lladd pobl eraill. Nid yw'r bobl hyn o reidrwydd ar fai o gwbl, ond maen nhw'n methu â pheidio teimlo'n euog eu bod nhw wedi byw ac eraill wedi marw.

Mae'n Basg heddiw, a dyma ninnau'n uno gyda Christnogion ym mhob rhan o'r byd i ddathlu atgyfodiad Iesu Grist. Ac wrth i ni gyhoeddi ar Sul y Pasg fod y dyn dieuog a fu farw ar Galfaria wedi dod yn ôl yn fyw, fe gyhoeddwn hefyd mai un peth sy'n dilyn hynny yw bod maddeuant ar gael i bobl sy'n ymdeimlo ag euogrwydd am bob math o bethau. Oherwydd marw a wnaeth Iesu Grist er mwyn sicrhau maddeuant i bobl. Fe gymerodd y bai am ein pechodau ar y groes, ac mae'n barod yn awr i gymryd yr holl euogrwydd oddi arnom. Oes, mae maddeuant am bob bai, a pherffaith ryddhad oddi wrth bob euogrwydd yn Iesu Grist.

Dyna un o fendithion mwyaf Efengyl Crist sy'n ein gwahoddi i gydnabod ein beiau a chredu yn yr Iesu. Trueni mwyaf Jwdas oedd nid ei fod wedi bradychu Iesu ond ei fod wedi methu â galw am ei faddeuant. Boed i Efengyl y maddeuant a'r rhyddhad oddi wrth euogrwydd lewyrchu yng nghanol y byd hwn sy'n llawn o boen a gofid.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul y Pasg. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad ar un o wyliau mawr y Ffydd Gristnogol.

Gwasanaethir yn Llanberis am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon. Croeso cynnes iddi a diolch am ei gwasanaeth.

Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch yn Neiniolen gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon. Yn draddodiadol, dyma Gyfarfod Pregethu'r Pasg eglwys Cefnywaun, ac estynnwn groeso cynnes i Mr Jones gan ddiolch am ei wasanaeth unwaith eto.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd, yn arbennig yr aelodau ffyddlon sy'n methu â dod i'r oedfaon. Mae llawer a fu'n ffyddlon iawn i'r oedfaon ar hyd y blynyddoedd yn gweld eisiau cymdeithas yr oedfa.

Pasg Efe

Cynhaliwyd diwrnod Pasg Efe ddydd Llun diwethaf, Ebrill 14, yn Ysgol Gynradd Llanrug. Gwnaed y trefniadau gan Andrew Settatee, a gwahoddwyd Steffan a Gwenno Morris, a Sioned a Megan, sy'n treulio eu Blwyddyn Gap yng Ngholeg Y Bala, i'n cynorthwyo. Diolch iddynt am eu gwaith paratoi ac am eu prysurdeb yn ystod y dydd.

Cafwyd teirawr brysur iawn, a oedd yn gymysgedd o grefft, chwaraeon, gwneud masgiau, canu mawl, dysgu adnod a chyflwyniad bywiog a gwreiddiol o'r dystiolaeth a geir yn yr efengylau i atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist.

Rhannwyd y plant yn bedwar tîm a oedd yn cynrychioli arch-arwyr byd y comics a'r ffilmau, Batman, Superman, Spiderman ac Ironman, a chafwyd cystadlu brwd am bwyntiau ar gyfer gwahanol dasgau'r dydd. Y bwriad wrth ddefnyddio'r arch-arwyr hyn, wrth gwrs, oedd dangos bod Iesu Grist yn fwy ac yn well na'r un o arch-arwyr dychmygol hyn, gan mai ef yw Mab Duw, a ddaeth i'r byd, ac a fu farw ac a dod yn ôl yn fyw.

A hanes atgyfodiad Iesu oedd y sail i'r holl weithgareddau. Cyflwynwyd yr hanes trwy gyfres o fwletinâu newyddion ar sgrin fawr, wrth i ohebydd **Wedi 3diau** holi Pedr, y ddau gyfaill y cyfarfu Iesu â hwy ar y ffordd i Emaus, a Thomas. Clywyd Pedr yn dweud iddo weld y bedd yn wag a'r llieiniau a fu am yr Iesu wedi eu gadael ar ôl; clywyd y ddau gyfaill yn sôn am y ffordd yr oedden nhw wedi methu ag adnabod Iesu wrth iddo sgwrsio efo nhw ar y ffordd, ond eu bod wedi ei adnabod wrth iddo weddio a thorri'r bara gyda nhw; a chlywyd Thomas yn dweud ei fod wedi gwrthod credu'r hyn a ddywedodd ei ffrindiau am atgyfodiad Crist nes iddo ei weld drosto'i hun. Eglurwyd ein bod ninnau'n gallu credu

er nad ydym wedi ei weld â'n llygaid.

Daeth 30 o blant (8–11 oed) atom y tro hwn, ac yr oedd yn braf gweld yn eu plith rai wynebâu cyfarwydd i ni ac ambell un a ddaeth am y tro cyntaf. Braf iawn hefyd oedd cael help wyth o'r 'hen stejars', sydd erbyn hyn yn aelodau o CICIau'r ardal.

Roedd pawb wedi dod â pheycyn bwyd a chafwyd cinio sydyn cyn mynd adref gydag wy Pasg bychan a thaflen liwgar yn adrodd stori'r Pasg i'w hatgoffa am y dydd ond yn bwysicach am newyddion syfrdanol y Pasg.

Penblwydd

Dathlodd Miss Doreen Ward, 53 Maes Padarn, Llanberis ei phenblwydd yn 90 oed ddydd Iau, Ebrill 10.

Llongyfarchiadau mawr iddi a gobeithio ei bod wedi cael diwrnod i'w goffio.

Casgliad y Genhadaeth

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd at y Casgliad Cenhadol a wnaed yn Capel Coch yn ystod mis Mawrth. Casglwyd £117.

Cymun y Groglith

Cynhaliwyd oedfa Gymun yn Capel Coch dan ofal y Gweinidog ddydd Gwener y Groglith, Ebrill 18.

Cynhaliwyd oedfa ym Mhlas Pengwaith bnawn Gwener hefyd a diolch yn fawr i Miss Dilys Mai Roberts a Mr Gareth Jones am eu cymorth.

Cymdeithas Undebol Deiniolen

Y Swper Blynyddol fydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Undebol Deiniolen, yng Nghlwb Golff Caernarfon, am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Ebrill 28.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Tabernacl, Llanrwst nos Fercher, Ebrill 30, am 7.00 o'r gloch.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Julie James, Rugby (Deinilen gynt) a'r teulu yn y brofedigaeth o golli ei gwr, Richard. Cynhelir ei angladd yn Eglwys Llandinorwig ddydd Mawrth, Ebrill 22.

Cwrs Coleg y Bala i Blant yr Ofalaeth

Plant 8–12 oed
(Blwyddyn 3–6)

Nos Wener, Mai 16
– Dydd Sul, Mai 18

Mae hwn yn gwrs gwerth
chweil bob blwyddyn

Manylion pellach gan y
Gweinidog